# Y DINESYDD

RHIF 11 MEHEFIN 1974

# GALW AM YSGOL

Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Rhieni Bryntaf fe basiwyd yn unfrydol fod y Gymdeithas am barhau yr ymgyrch i sicrhau addysg uwchradd ddwyieithog yn Ne Morgannwg - a hynny ar frys. 'Roedd cynrychiolaeth gref o rieni yn bresennol a gofynnwyd i bwyllgor y Gymdeithas i geisio cyfweliad â'r Awdurdod Addysg er mwyn pwyso arnynt i agor ysgol uwchradd ddwyieithog yn y dalaith ym mis Medi 1975.

Bu cryn drafod hefyd ar y gost o gludo plant i'r ysgol. Bellach, Bryntaf yw'r unig ysgol ddwyieithog yn Ne Morgannwg lle mae'n rhaid i'r rhieni gyfrannu 40% o'r gost. Gyda chostau cludiant yn codi yn sylweddol, golyga'r 40% hyn gyfraniad o £5,000 y flwyddyn. Darllenwyd llythyr oddiwrth yr Awdurdod Addysg newydd yn datgan na fedrent unioni'r anhegwch yma am flwyddyn arall o leiaf oherwydd prinder cyllid. Er mawr ofid i bawb oedd yn bresennol, pasiwyd i godi'r tâl i bob teulu i £7.50 y tymor. Cytunwyd, fodd bynnag, na ddylai cost cludiant rwystro unrhyw blentyn rhag mynychu'r ysgol ac y byddai'r swyddogion, mewn ymgynghoriad a'r Prifathro, yn rhoi pob ystyriaeth i achosion o galedi.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf: Llywydd: Mr Emyr Jenkins, Is-lywydd: Mr Geraint Talfan Davies, Ysgrifennydd: Mr David George, Trysorydd: Dr Reginald Potter, Ysgrifennydd Cludiant: Mr Gareth Lloyd Jones.

Os yw aelodau'r Gymdeithas am i'r pwyllgor ystyried unrhyw weithgarwch arbennig ar gyfer y flwyddyn nesaf gofynnir iddynt gysylltu â'r swyddogion mor fuan ag sydd yn bosibl.

## Noson Ddiddan a Llwyddiannus

Nos Sul, y deuddegfed o Fai, cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog yng Ngholeg Addysg Dinas Caerdydd a'r elw'n mynd i goffrau'r Dinesydd. Roedd y neuadd fawr dan ei sang a chafwyd noson i'w chofio, gyda'r eitemau'n gweddu'n dda ar gyfer nos Sul.

Fe ddaeth Côr Meibion Ystradgynlais i'n diddanu gyda nifer o eitemau amrywiol, ac roedd graen ar ei berfformiad ac edrychir ymlaen at y cyfle o gael ei glywed eto. Gydag ef, roedd Mrs Margaret Williams, Sain Ffagan, sy'n seren ddisglair bob amser, Y Diliau, sy wastad yn canu gyda graen, Côr Cerdd Dant Dinas Caerdydd, sy â'i olygon, fe ddeallwn, ar un o wobrau Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin eleni. Roedd Mered a Phyllis mor hwyliog ag arfer, ac fe ddaeth Robin Jones i glymu popeth wrth ei gilydd a'n diddanu gyda'i adroddiadau. Mae'n dda gan Y Dinesydd gyhoeddi i'r artistiaid i gyd gyfrannu o'u talent am ddim.

Cofiwch hysbysebu pob cyfarfod yn Y Dinesydd



*HYWEL BENNETT - (gweler stori ar dudalen 10)*

# Beth am 'Steddfod

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Eisteddfod Fawreddawg Godre'r Garth oni fyddai'n syniad bendigedig cynnal gŵyl o'r fath yn un o faestrefi Caerdydd. Dychmygwch holl ardaloedd Caerdydd yn cystadlu yn erbyn eu gilydd pob ardal yn ffurfio cymdeithas i baratoi tim cryf gogyfer a'r gyflafan.

Mawredd Eisteddfod Godre'r Garth oedd mai Eisteddfod hwyliog wledig oedd hi ac eilbeth oedd yr elfen gystadleuol - neb yn bygwth crogi'r beirniaid - prif bwrpas y noson oedd difyrru y cystadleuwyr a'r gynulleidfa fawr hwyliog. A dyna ddigwyddodd - noson na ddyliech fod wedi ei cholli. Noson wirioneddol Gymreig mewn ardal lle mae'r Cymry Cymraeg yn lleiafrif bychan iawn - ond eto'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg i gystadlu ac i ymuno â'r hwyl. Da hefyd oedd gweld Cymry di Gymraeg yr ardal yn mwynhau eu hunain.

Mae angen mwy o weithgareddau fel hyn lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n hollol naturiol ac yn gyfle gwych i'r cannoedd hynny sy'n dysgu'r iaith yn y cyffiniau deimlo eu bod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

Beth amdani? Beth am ddilyn esiampl Godre'r Garth a gwahodd Cymry Cymraeg Morgannwg i noson hwyliog o gystadlu. Does dim angen chwilio'n galed am deitl i'r noson - EISTEDDFOD Y DINESYDD - dyna hi.

Os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu Eisteddfod o'r fath dowch i gysylltiad a'r Golygydd, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina, Caerdydd.

# LLYTHYRAU

## LLYTHYR O NEW GUINEA

*Bocs 99,*
*Kokopo,*
*Papua,*
*New Guinea.*

*Annwyl Syr,*

*Darllenais eich apêl am gyfraniadau at gostau'r Dinesydd yn rhifyn 9 o'r copi ddaeth i law ychydig wythnosau yn ôl.*

*Gan taw Caerdydd yw fy nghartref, rwyn ymddiddori'n fawr yn nigwyddiadau'r ddinas a mwynhaf eich papur yn fawr pan gaf gyfle i'w ddarllen.*

*Gobeithio bydd y cyfraniad bach amgaeedig dipyn o gymorth i chi.*

*Yn gywir,*

Eluned Evans

*Gol. Gobeithio y bydd y llythyr uchod yn rhoi hwb bach i'r rhai hynny sy'n llawer nes at y Dinesydd na New Guinea, ond nad ydynt hyd yma wedi dilyn esiampl Mrs Evans a Mr a Mrs James (isod).*

---

*12 Cefn Coed Gardens,*
*Cyncoed,*
*Caerdydd.*

*Annwyl Ddinesydd,*

*Pleser mawr gan y gwr a minnau yw gyrru tanysgrifiad banc blynyddol at wasanaeth y papur.*

*Mae'r 'Dinesydd' yn ardderchog ac yn rhoi hwb i galon rhai Cymry fel ni sydd ddim yn dda iawn am ysgrifennu'r iaith ond yn hoff iawn o ddarllen a chlywed hanes ein cyd Gymry.*

*Yr eiddoch yn gywir,*

Iola a Howel James.

## Symud

Bydd Anita a Michael Butler, a'u mhab Owain Rhodri, 1 The Hawthorns, Cyncoed, yn gadael Caerdydd ym mis Awst. Bu Michael yn dysgu yng Nghwmbran am bedair blynedd ond o fis Medi ymlaen bydd yn dysgu daearyddiaeth mewn ysgol uwchradd yng Nghonwy, Gwynedd.

## Newid Swydd

Longyfarchiadau i Hywel Rees, Pen y Dre, Rhiwbeina, ar ei benodiad yn Swyddog Cyhoeddusrwydd a Chyhoeddiadau yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.


ARGRAFFYDD
CYLCHGRONAU
A LLYFRYNNAU

Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,
55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa,
Caerdydd, CF1 8LW.
Ffôn : 396262


# AR FAI

Tro ardal Caerffili a Chaerdydd oedd bod 'Ar Fai' gyda Chwmni Theatr Cymru nos Fawrth, Mai 28 yng Nghanolfan Gymdeithasol Penyrheol, Caerffili. Dipyn o hwyl amserol ac ysgafnder i gloi'r tymor oedd hwn, gyda pheth chwarae ar y teitl amwys. 'Roedd nos Fawrth yn noson wael i'w gynnal yn y cyffiniau yma i ddweud y gwir, gyda'r holl bobl "ddwad" sydd yma wedi hel eu pac i'r gogledd dros y gwyliau heb sôn am droi eu golygon at y Rhyl ac Eisteddfod yr Urdd. Dyna oedd yn gyfrifol am yr holl seddau gwag yn sicr, ond ta waeth am hynny, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Dafydd Iwan a'i gyfeillion.

Rhaglen ar thema mis Mai a charu oedd rhan gyntaf y noson: caneuon gan Dafydd Iwan, Heather Jones ac Elfed Lewis; Cwmni o actorion yn ein difyrru gyda rhai hen benillion a cherddi; a Huw Ceredig fel hen drempyn wynebddu yn rhyw frasatgoffa rhywun o Ifas y Tryc. Cawsom wedyn gomedi am helyntion caru prif arwr mis Mai, Dafydd ap Gwilym, gyda'r Dafydd arall yn chwarae rhan y trwbadŵr. 'Roedd yr holl gymeriadau adnabyddus yno - y Brawd Llwyd, Dyddgu a Morfudd, heb sôn am y Bwa Bach ei hun. 'Roedd Elfed Lewis yn ffitio'r cymeriad hwn i'r dim - er mae'n rhaid cyfaddef na ddychmygais fod y Bwa Bach yn gymeriad mor hynaws a hwyliog o'r blaen! Noson ddifyr felly - "HWYL DI-FAI AR FAI A BAI YM MAI!"

**Margaret Tilsley**



*MRS BUDDUG THOMAS, Llandaf, yn tynnu cyflaith yn y dull hen ffasiwn yn Merched y Wawr.*


AMGUEDDFA WERIN CYMRU

SAIN FFAGAN

Dowch i weld : Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlan Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre'r ywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru.

Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith.

Os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch cael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

MYNEDIAD: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)
Plant o dan 16 5c.
Pensiynwyr yn rhad.
Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw.
Mynediad am ddim ar Ddydd Llun.
(ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

MAES PARCIO: Bysiau 15c
Ceir Preifat 11c
Beiciau Modur 5c

ORIAU AGOR: Dyddiau'r Wythnos: Ebrill, Mai, Mehefin a Medi 10.00 a.m. – 6.00 p.m.
Gorffennaf ac Awst 10.00 a.m. – 7.00 p.m.
Hydref – Mawrth 10.00 a.m. – 5.00 p.m.
Suliau: Ebrill – Medi 2.30 p.m. – 7.00 p.m.
Hydref – Mawrth 2.30 p.m. – 5.00 p.m.

# NEWYDDION CWM RHYMNI

MAE Alan Jones, Caerdydd, a fu gynt yn athro yn ysgol Cwm Ifor wedi symud i Ysgol Gymraeg Caerffili yn lle John Thomas, sydd wedi symud i Ysgol Gymraeg Aberdar. Daeth wyneb newydd i Ysgol Gymraeg Senghenydd hefyd gyda phenodiad Mrs. Margaret Griffiths i'r adran fabanod.

* * * *

BU NIFER o blant o Ysgol Gymraeg, Senghenydd yn ymweld a'r Uned Iaith, Pontypridd, yn ddiweddar i recordio caset o hwiangerddi a fydd yn cael ei ddefnyddio gan y Mudiad Ysgolion Meithrin fel un o'r llu cymorthion sydd yn awr ar gael i athrawon meithrin.

Bu fan y Cyngor Llyfrau yn ymweld ag ysgolion Gymraeg yr ardal yn rhoi cyfle i athrawon, plant a rhieni gael cipolwg ar y llyfrau diweddaraf.

* * * *

Aeth dros ddeg ar hugain o ddisgyblion a chynddisgyblion Ysgol Gymraeg Senghennydd i ymweld a gwlad Belg yn ystod y gwyliau. Blancenburg oedd eu canolfan a chawsant gyfle hefyd i weld trefi enwog eraill y wlad honno a'r Isalmaen gyfagos hefyd. Yn gofalu am y plant oed Mrs. Moyra Davies, prifathrawes, Mr. Gwyn Jones, a drefnodd y daith, Mr. Morus Parri a Mrs. Jean Williams.

PENDERFYNODD cyfarfod o Bwyllgor Rhieni Ysgol Gymraeg Bargoed ar raglen lawn i gasglu arian yn ystod y tymor hwn. Uchaf ymysg y gweithgareddau fydd Ffair Sborion, Ffair Haf a Noson Goffi.

* * * *

MAE plant Ysgol y Gilfach yn cystadlu'n gyson ar gystadleuthau cornel y plant yn y Cymro. Enillwyd gwobrau yn ddiweddar gan Darren Davies, Lorraine Phillips, Rosanne Morgan, Paul Sherwood, Anthony Spiller, Denise Whittock, Ruth Walters, Ceri Jones, Judith English, Helen Evans a Susan Angel.

* * * *

LLWYDDODD Ysgol Sul Tonyfelin, Caerffili, i wneud elw o dros £25 mewn Ffair Sborion. Defnyddir yr arian i dalu am gludo'r plant i'r capel bob bore Sul mewn minibws.

* * * *

MAE Gwasg y Sir, y Bala, yn cyhoeddi llyfr yn cynnwys nifer o ysgrifau portread a ymddangosodd yn y Faner dros y misoedd diweddar. Yn eu mysg yw ysgrif Dafydd Islwyn, athro yn y Bargoed, am gymeriad o ardal Rhoscefnhir, Mon, sef bro enedigol yr awdur.'Hen John' yw enw'r ysgrif ac mae'r llyfr diddorol hwn eisoes ar werth yn y siopau. Gyda chymorth ariannol o'r Cyngor Llyfrau yn gostwng y pris i 10c hwn, yn sicr, yw'r fargen orau ar y farchnad.

* * * *

## GWOBR GYNTAF YR URDD

Llongyfarchiadau i barti cyd adrodd Ysgol Sant Ilan, Caerffili ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i ddysgwyr dan 15 oed. Eu hathrawes oedd Miss Heulwen Mainwaring sydd wedi gwneud enw iddi ei hunan fel adroddwraig a choginwraig.

## GÊM GALED

Colli yn y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Cwpan Pantyfedwen (peldroed) fu hanes tim Ysgol Uwchradd Rhymni, Caerdydd. Hyfforddwr y tim oedd Gwyn Griffiths o Gaerffili ac ar ôl y gêm dywedodd wrth ohebydd arbennig Y DINESYDD "Colli 2 - 0 ar ôl gêm galed".

## AM DRO I'R FRO

Ar Fehefin 22ain yn rhan o gwrs Meredydd Evans, Adran Efrydiau Allanol, Caerdydd, yng nghylch Caerffili, trefnwyd trip o amgylch Bro Morgannwg. Alun Mathias fydd yn rhoi sylwadau ar y gwahanol ardaloedd yr ymwelir a hwynt ee. cartref Iolo Morgannwg a Bethesda'r Fro. Mae yna le ar ôl o hyd i dri neu bedwar ar y bws. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Gareth Roberts, Caerffili 867365.

# Andros O Dasg

## "Enseiclopidia" cyfan o waith un dyn!

Tipyn o fenter oedd ymgymryd â llunio enseiclopidia yn Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifainc, ond dyna wnaeth D. Gwyn Jones o'r Eglwysnewydd ar gais Pwyllgor Llyfrau Cymraeg Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Bu'r gwaith ar y gweill ers tro, a newydd ymddangos mae'r gyfrol gyntaf, - y gyntaf o chwech.

Paratodd yr awdur restr o tua mil o "bynciau", wedi'u dosbarthu yn ôl trefn y wyddor, cyn dechrau sgrifennu, ac mae'r gyfrol gyntaf hon yn cynnwys rhyw 160 o bynciau, o "Abacus" i "Cannwyll".



*D. Gwyn Jones.*

Mynnodd osgoi'r geiriau "enseiclopidia" a "gwyddoniadur", a theitl y gyfres yw CHWILOTA - enw addas dros ben. Mae'n amlwg bod D. Gwyn Jones wedi chwilota llawer iawn wrth baratoi'r gwaith a chasglu'r deunydd: bydd y plant a fydd yn ei ddarllen yn chwilota wrth bori yma a thraw, ac mae'r awdur yn hyderu y byddan nhw'n mynd ati i chwilota ymhellach ar ôl cael blas ar gymaint o wybodaeth ag a geir yma.

Mae'r gyfrol hon yn frith o fapiau a brasluniau rhagorol a luniwyd gan Adran Gartograffeg Y Swyddfa Gymreig o fanylion a gawson nhw gan yr awdur, a cheir ynddi hefyd lu o ddarluniau du-a-gwyn, a rhai mewn lliw, a ddewisodd yntau'n ofalus iawn - gwaith oriau lawer, mae'n siwr, o chwilio gwahanol ffynonellau a gohebu â nifer fawr o berchnogion hawlfraint. Cyhoeddir y gyfres gan Wasg y Brifysgol, a diolch iddyn nhw a'r argraffwyr am gynhyrchu cyfrol gyntaf ddeniadol iawn.

Brodor o Gilfynydd yw D. Gwyn Jones. a'i wraig Gwenllian o'r Baduchaf. Athrawes yw hi wrth ei galwedigaeth, ac mae'r ddau wedi sgrifennu nifer sylweddol o lyfrau Cymraeg i blant. Daethon nhw nôl i'r De, i 3 Heol Coedcae, Yr Eglwysnewydd, yn 1964 ar ôl treulio bron deng mlynedd yn Sir Gaernarfon lle roedd yntau'n Gyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol. Mae'n gweithio bellach i Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a chafodd ei benodi'n Bennaeth yr Adran Arholi yno o fis Medi nesaf. Gobeithio na fydd gofalon y swydd bwysig honno'n amharu ar yr amserlen a baratodd iddo'i hun ar gyfer y pum cyfrol nesaf, a ddaw o'r wasg fesul un yn ystod y pum mlynedd nesaf, fan bellaf.

Hei lwc iddo gyda'r gwaith.

## NOSON GOFFI

Am 7.30 nos Iau Mehefin 27ain cynhelir Noson Goffi yn Neuadd y Parc, Caerffili, i gychwyn ymdrech cylch Caerffili i godi arian tuag at Gronfa Mil o Filoedd (yr Eisteddfod Genedlaethol) Trefnir adloniant sef Mary Rhiannon a Thannau'r Twyn a Dewi ap Rhobert a Vera.

Dymuna'r Bwrdd Golygyddol ddiolch o galon i Mr Islwyn Jenkins, 8 Mavis Grove, Caerdydd am yr holl luniau a roddwyd ganddo at wasanaeth Y DINESYDD.

# Yr ŵyl Ryng Geltaidd yn Cilairne


Iris Williams

*Ni allwn lai na meddwl am Bendigeidfran yn croesi o Harlech i Iwerddon gynt i ddelio a Matholwch, wrth i griw ohonom o Gymru a Chernyw groesi o Abertawe i Corc. Dim ond dychymyg breuddwydiol oedd hynny, roedd yr achos yn un llawer hapusach y tro hwn. Roeddem i gyd ar y ffordd i'r Wyl Ryng-Geltaidd yn Cilairne neu Killarney i ymuno a'r gweddill o'r cenhedloedd Celtaidd.*

*Croeso dibendraw gan y Gwyddelod, pobl yn aros ar y stryd i gael sgwrs. Nid myth yw'r hanesyn am gusannu carreg y Blarney - mae gan y Gwyddelod ffraethineb godidog. Un o'r hogia sy'n gyrru cart a cheffyl, jarvis yw'r enw arnynt, yn troi ataf a dweud mewn acen Wyddelig - "Facw mae stad Killarney. Miliwner sy bia'r lle. Un ferch sydd ganddo ac fe drodd hi'n llian. Dyna pam dydw i ddim wedi mynd i'r drafferth i'w nabod o".*

*Daeth uchafbwynt yr wythnos i ni pan ddaeth dyfarniad y beirniaid ar y gystadleuaeth Ryng-Geltaidd. Roeddem ni eisoes wedi cynnal cystadleuaeth ar GWERIN 74, a chân Rod Thomas a Robin Griffith "Cael Cymru yn Gymru Rydd" yn ennill. Roedd hi'n hwre fawr arnom ni'r Cymry pan ddyfarnwyd y gân yn gydradd gyntaf gyda chan hyfryd o Iwerddon. Iris Williams oedd yn ei chanu, a'r Diliau gyda hi. Pawb ohonom yno am anfon adref i ddweud, drwy'r teleffon y tro hwn, nid anfon y drudwy.*

**Rhydderch Jones**


Rod Thomas a Robin Griffith



YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref......

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

**Ni yw'r arbenigwyr**

**Sleep & Light Centre**

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos
9 a.m. - 5 p.m.

NOSON HWYR - NOS IAU HYD
7.30 p.m.

# COLOFN SBECTOL SIAN

Da iawn Llundain, sathrwch ar yr hogia' drwg yna sy'n dweud Porthcawl a Merthyr ar y niws Saesneg. Dangoswch iddynt pwy di'r boss. A pwy ydw i i gwyno am yr ychydig eiriau Saesneg sy'n cael eu defnyddio ar raglenni Cymraeg - tydy pawb yn iwshio geiriau fel 'Please, Kick off, safio, canslio, helicoptar, tortoise, what's on, five forty three, (pedwar deg munud i chwech ddat is) a Trearddur Bay. Be di'r pwynt hefyd o gyfieithu sgyrsiau gyda phobl fel Tom Jones y canwr (sgwp y flwyddyn) ymgeisydd Toriaidd Caerfyrddin a Len Murray yr Undebwr i'r Gymraeg, mae pawb yn deall Saesneg, hyd yn oed gwylwyr 'Heddiw'. Ond mae'n rhaid cyfieithu geiriau annodd fel 'erthylu sydyn' i'r Saesneg - crewch un hogia - clywais un yn cyfeirio at U.C.A.C. fel 'yr N.A.T.W.' gweithiwch hynny allan.

Diolch i Gwyn Parry am ychydig o awyr iach wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac esmwyth yn ei gyflwyniad.

Hefyd gwd lyc i Athy.

* * * *

Beth sy'n bod ar ein gwlad. Prinder papur ty bach a phawb yn canu 'Cael Cymru'n Gymru Rydd' Llongyfarchiadau i Robin Griffith a Rod Thomas am ennill cystadleuaeth 'Can i Gymru'.

Wrth son am bapur a chystadleuaeth fuasech chi'n hoffi clywed am gystadleuaeth fawr y flwyddyn yn Eisteddfod Bro Myrddin? Wel y gystadleuaeth yw ceisio darllen a deall y cyfarwyddiadau ynglŷn â chystadleuaeth Celf a Chrefft Cyngor y Celfyddydau. Argraffwyd y manylion Cymraeg mewn coch, a'r Saesneg mewn piws - y cyfan ar bapur arian. 'Sing is bilifing.' Peth mawr ydy pres ynte.

* * * *

Gall hyn esbonio'r ffaith fod Banc y Midland wedi agor cangen newydd yn Heol y Santes Fair. Mae Cownter Cymraeg yno yn cynnwys pob ffurflen at ddefnydd y cwsmeriaid, hefyd posteri anferth uniaith Cymraeg. Da iawn Banc y Midland.

Son am bres, gwr cyfoethog ydy Moi Parri. Mae o newydd ennill gwobr aruthrol yng nghystadleuaeth Englyn y mis yn y Cymro. Synnwn i ddim na fydd raid inni dalu £3 am y Cymro o hyn ymlaen. Hoffai'r Dinesydd roi diwedd am byth i'r stori ffiaidd fu ar led mai benthyg englyn enwog (o'r farwnad) gan Arglwydd Rachub ap Elystan ap Wiliam ap Edwards o'r unfed ganrif ar bymtheg i'r testun Yr Etholiad Gyffredinol wnaeth Moi.

Fodd bynnag, daw'r wobr i mewn yn gyfleus cyn bo hir, gan fod y bardd a'i ddyweddi wedi penderfynu priodi rywbryd yn yr haf. Bydd hanes llawn yn Y DINESYDD, am yr holl weithgareddau etc etc.

* * * *

Cnoc cnoc.
Pwy sy' 'na?
Ty'r Cymry.
Ty'r Cymry pwy?
.............. ?

* * * *

**NEWYDD BRIODI**

Llongyfarchiadau i Mary Middleton ac Eurwyn Wiliam ar eu priodas yn ddiweddar. Anfonwch anrhegion i Gastell San Ffagan.



*Y Parti Cyd adrodd ddaeth yn ail yn yr Urdd, gyda Miss James a fu'n hyfforddi'r plant.*



*Y Cor Cerdd Dant o Ysgol Bryntaf a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Rhyl. Ar y dde Miss Rhiannon Evans (hyfforddwr).*



*Y Parti Cerdd Dant o Ysgol Bryntaf a ddaeth yn ail yn yr Urdd.*



*Mrs Sarah Barr yn sgwrsio gyda Mr a Mrs John Rowley yn y Ffair.*

# FFAIR HAF

gan N.W.

"Dos draw i'r pentra' i nol cig Sul cyn i'r siopa gau a pryna chydig o datws a moron run pryd - hwda ddwy bunt a mi fyddai'n disgwl newid".

Rhaid oedd ufuddhau gan fod y badell ffrio'n chwifio'n beryglus yn llaw y wraig - felly i ffwrdd a fi yn dwys ystyried prun ai cig oen neu gig eidion fyddai'n harddu'r bwrdd y diwrnod wedyn. Fel 'ron i'n dynesu at siop y cigydd dyma 'na swn car yn stopio'n fy ymyl - "neidia'i mewn ne' mi fyddi'n hwyr" a chyn imi gael cyfle i ddeud 'sosages' ffwrdd a fi i fyny'r lôn a stopio o flaen Neuadd Goffa, Rhiwbeina. Pum ceiniog yn dlotach yn ddiweddarach roeddwn i mewn, yn gwrando ar Sarah Barr yn cyflwyno Mr John Rowley, Rheolwr y BBC yng Nghymru, fel y gwron oedd yn mynd i agor Ffair Haf Flynyddol Cymdeithas Rieni Ysgol Feithrin Gymraeg Rhiwbeina. Mewn araith fer ddwyieithog pwysleisiodd pa mor bwysig oedd gwaith y Mudiad Ysgolion Meithrin yng Nghymru heddiw i osod sylfaen gadarn i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Diolchodd i bawb oedd yn gweithio i'r Mudiad - talodd deyrnged arbennig i Gwilym Roberts, ysgrifennydd Ysgol Feithrin Gymraeg Rhiwbeina, o'r cychwyn cynta'. "Mae yna ddau gategori o bobl "meddai" y rhai sy'n gweithio a'r rhai sy'n fodlon gadael iddyn nhw weithio".

Ar ôl yr araith, gollyngwyd y dorf yn rhydd ac fe'm sgubwyd i lawr i gyfeiriad y bwrdd gwerthu caceni - "Oes gennych chi brês" meddai'r ddynes tu ôl i'r bwrdd - "Oes thenciw" medda' finna'n llanc a dangos punt iddi - pen chwinciad roedd cacen sunsur yn fy llaw â newid - "Rydach chi'n edrych fel petaech chi isio bwyd." Neidiais oddi wrth y bwrdd cyn imi gael profedigaeth arall - a chlywn eiriau'r wraig yn diasbedain yn fy nghlust - "cig Sul".

Pot marmaléd, pâr o sgidia babis ac ugain o dicedi raffl yn ddiweddarach ac fe'm cariwyd i gyfeiriad y bwrdd planhigion. Roedd y ferch olygus wrth y bwrdd yn amlwg yn gweld yr olwg ddigalon yn fy llygaid ac fe'm tywysodd yn annwyl tuag at ei chactus a'i lupins.

"Dowch yma cariad" meddai a'i llais melfedaidd yn ysgafnhau fy mhryderon. "Oes gennych chi ardd?"

"Oes" medda finna.

"Oes gennych chi lupins?"

"Nag oes" medda finna.

"Llond pwcad am bunt?"

"Pwcedaid" medda finna.

"Diolch cariad" medda hitha, gan roi fy mhunt yn y bocs. "Beth am gactii?" Roedd y gair pigog hwn yn ddigon i'm deffro o'm breuddwyd. "Dim thenciw" medda finna - ond ar y funud dyma 'na rywbeth oer yn llithro i lawr cefn y nhrowsus i. Fe drois i weld - a dyna lle'r oedd bachgen bach yn dal cornet di hufen ia yn ei law - a golwg gellweirus ar ei wyneb.

"Ydach chi isio goldfish?" medda rhywun yn fy nghlust chwith "Beth am botal o bop?" yn y glust dde. "Ŵy iar dwy geiniog, ŵy ceiliog tair" o gyfeiriad arall. Cael fy nghario i gyfeiriad y drws - naid, a dyna fi yn nhawelwch y cyntedd a'r nwyddau'n ddiogel yn fy nwylo.

"Diolch fawr ichi am ddod" medda Gwilym Roberts a gwên fuddugoliaethus ar ei wyneb. Allan i'r drws, a hen wraig yn gofyn os mai jumble sale oedd yn mynd ymlaen - "Ia" medda finna" ond os ewch i mewn, peidiwch er mwyn y byd a gwrthod prynu cactus, ne ma' nhw'n siwr o stwffio hufen ia lawr cefn ych chi"

Ymlwybro'n ôl i'r pentra at y siop gig - llaw yn y mhocad - tynnu allan ddwy geiniog. Magu digon o 'guts' i fynd adra - cyrraedd y ty a'r wraig yn aros yn y drws.

"Be brynist ti i ginio Sul?"

"Pysgodyn" medda finne.

"O dyna newid" meddai gan roi cusan ar fy moch, "Pa fath o sgodyn?"

"Goldfish" medda finne a rhedeg i guddio tu ôl i'r goeden gwsberis.

Tra'n llechu yno'n nerfus mi ddois i benderfyniad sydyn - tra mae na bobl fel hyn yn cefnogi'r Gymraeg fydd yr iaith byth farw -

"Esgusodwch fi, fi ydy'ch Gweinidog newydd chi - pam dach chi'n cuddio tu ôl i'r goeden gwsberis?"

# Prifathro Ysgol Llanharri

Fe fydd nifer o blant sy'n gadael Caerdydd a'r cylch ym mis Gorffennaf yn troi eu golygon tuag at Ysgol Uwchradd Llanharri a fydd yn agor ym Medi. Er bod yr adeilad wedi bod yn gartre i ysgol ers rhai blynyddoedd, bydd yn cael ei hagor ar "newydd" wedd y pryd hwnnw, ac mae'r awdurdodau wrthi ar hyn o bryd yn penodi staff. Ac aeth y swydd allweddol o brifathro i Mr Merfyn Griffiths, Creigiau. Fe fydd pawb ohonoch sy'n ymddiddori yn natblygiadau Ysgolion Meithrin yn gwybod am y gwaith mawr y mae Mr Griffiths wedi'i wneud yn y maes hwn dros y blynyddoedd. Fe ddychwelodd i'w swydd yng Ngholeg Addysg Dinas Caerdydd yn ddiweddar ar ol treulio peth amser gyda'r Cyngor Ysgolion yn Aberystwyth. Fe welir ffrwyth ei lafur yn y swydd honno mewn nifer o lyfrau Mathemateg yn y Gymraeg a gyhoeddir yn fuan.

Brodor o Lanegryn, Sir Feirionnydd, yw Mr Griffiths, a dymuna'r Dinesydd bob llwyddiant iddo ef a'i gydathrawon yn y dyfodol.


# Holi Ffrindiau

### ATEBION

1. Dyfrdwy, Taf, Conwy.
2. Môn, Copr.
3. Abermaw, Wrecsam, Treforus.
4. Siraff.
5. Caerdydd.
6. 14 owns.
7. Blodau.
8. Syr Ifan ab Owen Edwards.
9. Dyn.
10. Arcimedes.

### GENI

I Meinir ag Arthur Boyns - Parc Castell y Mynach, Creigiau - merch - Teleri Arthur, chwaer i Llŷr Arthur.



*GWERIN - y siop sy'n gwerthu amrywiaeth o bethau.*

# GWERIN

Mae'n debyg mai un o brif gynghorion yr arbenigwyr i ddarpar berchennog siop fyddai iddo ddewis ei amser a'i ddyddiad agor - amser da o'r flwyddyn a phawb yn ariannog a pharod i wario. Prin y buasai neb o'i wirfodd yn dewis yr wythnosau cyntaf o'r flwyddyn hon i fentro arni. Dyna'r wythnosau llwm o agor-ar-dri diwrnod, o ddiffyg golau, o bocedi gweigion.

Ond fe ddaeth cyfle i Teleri Gray, ei chwaer Nia Waddington a chyfeilles iddynt, Mair Davies, fentro i fyd busnes ym mis Ionawr a bu'n rhaid bachu ar y cyfle. Daeth 'GWERIN' 102 Albany Rd., i fodolaeth yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

"Ond efallai mai peth da oedd hynny" meddai Teleri, "doedd dim ond lle i wella"

Siop i werthu gwaith llaw yn bennaf yw 'Gwerin' gydag amrywiaeth lliwgar cyfoethog o arluniau, collage, teganau a nwyddau lledr. Gwaith crefftwyr ac artistiaid lleol yw llawer ohonynt.

"Rydym yn gallu helpu'r rhai sy'n gweithio gartre' i werthu eu cynnyrch ac wrth gwrs mae'n help i ninnau hefyd"

Ond mae yno hefyd nwyddau gan 'Cadwyn' (Cwmni Ffred Ffransis) yn cynnwys ei deganau meddal. (Bu'r llewod a'r eliffantod yn llwyddiant arbennig). Yn y dyfodol maent yn gobeithio gwerthu crochenwaith a gwaith cerrig wedi eu sgleinio gan yr un cwmni.

Bob yn ail a gwarchod y siop yn ystod yr wythnos mae Mair Davies a Teleri Gray yn cadw ty, edrych ar ol y plant (Gethin Gray a Iolo, Guto a Sion Davies) a chynhyrchu nwyddau eu hunain i'w gwerthu.

Athrawes Gelf yw Nia Waddington ac mae hi a'i phartneriaid yn sicr o gefnogaeth eu gwŷr (Michael, David ac Emyr) - a'u parodrwydd i godi silffoedd newydd pan fydd angen.

Yn y dyfodol mae 'Gwerin' yn gobeithio cynnig dewis o smociau, sgertiau llaes o frethyn Cymru, mwy o waith lledr - "ac yn arbennig gwaith pren o safon uchel wedi ei wneud yng Nghymru. Mae angen a galw am wneuthurwyr fel cwmni teganau Galt."

Mae'r siop yn drysordy o grefftau a gwaith celf ac yn haeddu taith o ganol y ddinas i Albany Rd. (Wrth ddod o gyfeiriad Wellfield Rd. trowch i'r chwith i Albany Rd. wrth y goleuadau a chroesi'r ffordd gyferbyn a'r Globe).

Nia Hall Williams

### LLWYDDIANT

**Calondid oedd gweld Aelwyd Caerdydd yn cipio gwobrau ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd yn y Rhyl - am chwarae drama, am ddeialog a chor trillais am ganu penillion ac am gyflwyniad dramatig.**

**Dyma'n siwr ernes o'r hwyl a'r diwydrwydd mawr sy yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy o dan ofal y Warden, Ian ap Dewi. Y lle iawn i bobol ifainc dyrru iddo.**

# Tua'r Canol

Fe glywch chi nifer o bobol sy wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yng Nghaerdydd yn dweud iddyn nhw wneud hynny yn un o ddosbarthiadau "John Albert". Cyfeiriaf at Mr John Albert Evans, a fu'n dysgu'r Gymraeg am flynyddoedd yn Ysgol Gynradd Tonyrywen, sy nawr yn un o athrawon Bryn-taf, ond a fydd o Fedi ymlaen yn un o drefnyddion iaith newydd Canol Morgannwg. Fe fydd ef a'i deulu yn dal i fyw yn y ddinas.

Mae "John Albert" wedi bod wrthi am flynyddoedd yn dysgu'r Gymraeg mewn dosbarthiadau nos yn y ddinas - ac ef, heb unrhyw amheuaeth, yw un o'n harbenigwyr. Fe fu'n cyfrannu pwt yn achlysurol i'r Dinesydd, ac rŷn ni'n siŵr na fydd yn hir cyn gwneud ei farc yng Nghanol Morgannwg.

*Llongyfarchiadau i Gwenda a Dennis Francis, Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, ar enedigaeth mab Owain Geraint - brawd i Lowri Heledd.*

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

**Cofiwch fod Y Dinesydd yn costio llawer i'w gynhyrchu - anfonwch gyfraniad bychan i wneud y baich yn llai.**

# Deublygrwydd

Er cael fy magu mewn dinesig dŷ
A dysgu y ddinesig ffordd o fyw,
Ni fedraf ymdebygu'n llwyr i'r llu
Frodorion gwir, sefydlog. Anodd yw
I mi gydffurfio â defodau lle
Nad yw wrth fodd fy nghalon brudd-drwm i.
Mi hoffwn ffoi, a dianc rhag y gwe
Sy'n dal ynghŷd ein huned ni o dri.
Pan ga' i gyfle, âf yn ôl i'r Cwm
I flasu unwaith eto'r bywyd pur
Y'm cipiwyd oddi wrtho. Er yn llwm,
Ni allaf beidio hoffi'r olwg sur
Ar adeiladau'r hen Dresoflan fach.
Yn iach, Gaerdydd! Wfft i'th anferthedd crach!

Helen Smith

(Tresoflan = Resolfen.)

Gol - Ydych chwithau hefyd yn mwynhau byw yng Nghaerdydd - beth am anfon sylwadau ar neges y soned uchod at - Y Golygydd, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina, Caerdydd.

# MAES Y PLANT

## POBOL YN SIARAD

Fe ddywedodd un gŵr unwaith y dylai pawb siarad Saesneg am mai hi yw iaith fwyaf poblogaidd y byd, ond doedd e ddim yn gywir. Un o ieithoedd China yw iaith fwyaf poblogaidd y byd, ond Saesneg yw'r ail. Yn drydydd, fe ddaw Rwsieg - ond deuddegfed yw Ffrangeg, yr iaith sy mor boblogaidd yn ysgolion uwchradd Cymru. Mae llawer mwy o bobol yn siarad Sbaeneg ac Almaeneg nag sy'n siarad Ffrangeg.

## MERCHED YN SIARAD!

Fe aeth un o ferched Ysgol Gymraeg Bryntaf at y meddyg gyda'i mam, a medde hwnnw wrthi hi,

"Gwthiwch ych tafod allan, 'y merch i."

Dyma hithau'n gwthio blaen ei thafod rhwng ei dannedd.

"Na, na, gwthiwch hi i gyd allan."

"Ond fedra i ddim," oedd 'i hateb. "Mae hi'n sownd y pen arall."

## Y DDINAS FWYAF

**Mae llawer yn credu mai Llundain yw dinas fwya'r byd, ond dyw hynny ddim yn wir. Mae dwy ddinas sy'n fwy na hi. Y fwyaf i gyd yw dinas Tokyo yn Japan. Mae'n amhosibl dweud beth yw poblogaeth y ddinas gan ei bod yn newid yn gyson. Dinas sy'n dilyn yn glos wrth ei sodlau yw Efrog Newydd yn Unol Daleithiau'r Amerig, ac mae Llundain yn drydydd.**

## Y SAITH RHYFEDDOD

**Tybed a wyddoch chi pa rai yw saith rhyfeddod naturiol y byd modern? Dyma nhw i chi,**

1. **Y Grand Canyon yn Unol Daleithiau'r America. Mae'r afon Colorado yn berwi trwyddo.**
2. **Harbwr Rio de Janeiro yn Brasil.**
3. **Rhaeadr dŵr Iguazi yn Argentina.**
4. **Dyffryn Yosemite yn California, Unol Daleithiau'r America.**
5. **Mynydd Everest.**
6. **Yr afon Nil.**
7. **Goleuadau'r Gogledd (aurora borealis)**

## PWDIN BLASUS!

*Beth am ofyn i mami gadw llygad arnoch chi tra byddwch chi'n gneud hwn? Mae'n hawdd dros ben 'i wneud e, ond yn anodd dros ben peidio â'i fwyta. Fe fyddwch chi eisiau:*


*Dau wyn wy*
*Cwpanaid a hanner o siwgwr caster*
*Pedair llond llwy fwrdd o ddŵr oer mewn cwpan*
*Un llond llwy bwdin o flawd indian corn (cornflour)*
*Un llond llwy do o finegr*
*Un llond llwy fwrdd o flasydd vanilla*

*I ddechrau, trowch y ffwrn ymlaen, a'i gosod i gyrraedd 350 gradd, Nwy 3. Cymrwch fasin a rhoi'r cyfan ynddo a'u cymysgu'n dda am chwarter awr neu ragor. Ar gyfer hyn, byddai'n ddoeth defnyddio'r cymysgwr trydan.*

*Taenwch ymenyn ar bapur gwrthsaim a'i roi ar waelod tun pobi a rhowch y trwyth arno. Trowch y ffwrn i ffwrdd a'i roi ynddi a'i adael yno am awr a hanner. Yna, ar ôl ei dynnu allan, rhowch e yn yr oergell i oeri'n dda. Yn awr, mae'n barod i'w fwyta ar ddiwrnod poeth. Rhowch e mewn dysglau, a gofynnwch i mami chwipio hufen i'w roi ar y top ac yna manu cawod o gnau dros y cyfan.*

*Ei fwyta gyda blas!*

## POS CROESEIRIAU




**Ar draws**

2. *Mae mam yn ····· y drefn os y byddwch chi'n ddrwg.* (5)
6. *Mae plant sy'n bresennol yn yr ysgol yn dweud hyn.* (3)
7. *Rhaid i iar wneud hyn cyn ichi gael wy i frecwast.* (5)
8. *Enw arall ar leuad.* (4)
10. *Mae hyn yn fwy na phedwar.* (4)
14. *Dyw hwn byth yn aros i neb.* (5)
17. *Ffrind mawr cwpan de.* (5)

**I lawr**

1. *Gellir cadw dŵr ymolchi yn hon* (5)
2. *Os nad ych chi'n mynd, hwyrach eich bod chi'n ---.* (3)
3. *Cenir hwn mewn capel.* (4)
4. *Fe ddylech chi wneud hyn mewn ysgol.* (5)
5. *Mae gan bawb ddwy o'r rhain.* (3)
9. *Mae i hwn saith o liwiau.* (5)
11. *Peth iawn i'w gael ar ddydd pen blwydd.* (5)
12. *Hoff fwyd llygoden.* (4)
13. *Un o greaduriaid y sŵ!* (3)
15. *Un o greaduriaid yr ysgol!* (3)





*Iona Jones - buddugol yn Eisteddfod yr Urdd ar yr Unawd dan 12 ac ar yr Unawd Cerdd Dant dan 12 oed.*

# BETSAN Y BARDD

*Enillodd Betsan Powys o Ysgol Bryntaf ar gyfansoddi can o dan ddeg oed ar y testun - Pan fyddai'n fawr - a dyma hi yn ysgrifennu'r hanes i'r Dinesydd.*

**Pan fyddaf i yn cicio fy sodlau heb wybod beth i'w wneud fe fyddaf yn mynd ati i gyfansoddi barddoniaeth. Rwyn hoffi cyfansoddi penillion yn yr ysgol, gartref ac ar fy ngwyliau. Fy hoff ffordd o wneud pennill yw pennill gydag odlau ynddo. Mae'n swnio yn fwy llawn imi na phennill heb odl. Yn yr ysgol cyfansoddais bennill am dramp ac am fy mreuddwyd ond y testun i Eisteddfod yr Urdd eleni oedd "Pan fyddaf i yn fawr" Testun da oedd hwn a bum yn meddwl am amser hir beth i roi yn fy marddoniaeth.**

A dweud y gwir pan oeddwn mewn lle rhyfedd iawn daeth y syniad imi. Roeddwn yn ystafell aros y doctor ac roedd aros am fy nhro yn ymddangos fel oes. Penderfynais i ddechrau meddwl pa eiriau i'w defnyddio. Yn yr ysgol drannoeth fe fu bron i mi roi y ffidl yn y to ond o'r diwedd gorffenais y penillion i gyd ac wedi eu rhoi i Mr Evans anfonodd e nhw i swyddfa'r eisteddfod yn y Rhyl, lle roedd yr eisteddfod yn mynd i gael ei chynnal.

Wedi aros am amser hir, un bore fe gyhoeddodd Mr Evans y prif athro fy mod wedi ennill y wobr gyntaf. Dyna i chi sioc a gefais - cerddais i fyny ar y llwyfan ac edrych i lawr ar y plant. Roedd yn brofiad gwerth ei deimlo. Yn fy nhyb i roedd yr un peth a bod ar ben Eferest.

Yn yr Eisteddfod cwrddais a beirniaid y barddoniaeth sef y Parchedig John Gwilym Jones o Fangor. Ysgrifennodd ei lofnod i mi ac roeddwn yn falch iawn o'i gael. Dyma'r pedwar pennill wnes i.

Rwyn gorfod mynd i'r gwely
A Rhys ar lawr yn hwy,
Fydd hynny ddim yn digwydd
Pan fyddaf i yn fwy.

Rhaid sefyll ar ben cadair
I osod llun ar wal,
Fe fyddai'n estyn popeth
Pan fyddaf i yn dal.

Bydd mam yn prynu losin
Ond chaf i ddim ond un,
Fe fwytaf baced cyfan
Pan fyddaf i yn hyn.

Sgidiau sodlau trymion
Sydd yn y ffasiwn nawr,
Rhai felly fynnaf innau
Pan fyddaf i yn fawr.

# Holi Ffrindiau

1. *Ar ba afon y saif (a) Llangollen, (b) Caerdydd, (c) Llanrwst?*
2. *Ymhle y mae Mynydd Paris? Beth gloddiwyd yno yn y gorffennol?*
3. *Datgymysgwch yr enwau trefi yma : MERABWA; MAWCESR; SETHROFUR. Mae pob un yng Nghymru.*
4. *Pa anifail a all weld y tu ôl heb droi ei ben?*
5. *P'run sy agosaf i Lundain, Caer ynte Caerdydd?*
6. *Beth yw pwysau swyddogol pêl droed?*
7. *Beth yw Carn yr ebol, Sawdl y fuwch, Llygaid lloi bach?*
8. *Pwy sefydlodd Urdd Gobaith Cymru?*
9. *Enwch anifail sy'n medru siarad a hynny mewn sawl iaith.*
10. *Pwy ddyfeisiodd y sgriw gyntaf?*

**Atebion ar dudalen 6.**

## Mân newyddion

Mae Mrs Eryl Lewis, Heol Birchwood, wedi cael ei hapwyntio'n athrawes Saesneg yn Ysgol Rhydfelen. Mae Mrs Lewis yn frodor o Sir Aberteifi. Roedd ei thad yn brifathro Ysgol Gynradd Llanddewibrefi. Mae ganddi hi a Gwilym ddau o blant eisoes yn yr ysgol, sef Gwyneth a Marian.

* * * *

Mae Mrs Eirwen Jones wedi cael ei hapwyntio'n drefnydd Ysgolion Babanod yn y ddinas. Cyn yr apwyntiad, roedd hi'n brifathrawes yn y ddinas. Mae hi a'i theulu wedi bod yn byw ers rhai blynyddoed bellach yn Heath Park Ave.

* * * *

Mae Mr Hywel Jones, Pantmawr, wedi cael ei benodi'n bennaeth Yr Adran Addysg yng Ngholeg Addysg Caerfyrddin. Cyn iddo ddod i lawr i gymryd swydd fel darlithydd (ac yn ddiweddarach fel uwchddarlithydd) yng Ngholeg Addysg Caerdydd, roedd yn brifathro Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Fe fydd yn flin gan ei lu cyfeillion ei golli a dymunant bob hwyl iddo yn ei ardal newydd - er y bydd yn lled agos i fro'i febyd yng Ngheredigion, Rhydlewis.

## CLECS

Mae Miss Eulonwy Jenkins, Pennaeth Adran Gerddoriaeth Ysgol Sant Ilan, Caerffili yn symud ym Medi i swydd gyffelyb yn Ysgol Uwchradd Llanharri. Mae ar hyn o bryd yn byw yn Y Groesfaen.

* * * *

Mae Mr Arwel George, Llandaf, sy'n dysgu Mathemateg yn Ysgol Uwchradd Rhydfelen yn symud i Ysgol Uwchradd Llanhari ym Medi.

* * * *

Mae Miss Susan Lewis, Rhiwbeina, wedi'i hapwyntio yn athrawes Gwyddor Tŷ a Choginio yn Ysgol Uwchradd Llanharri. Mae'n hannu'n wreiddiol o Abertawe.


# SUT MAE YMESTYN Y BUNT

Cawsoch olwg ar lawer o bethau yr ydym yn eu gwerthu yma yn siop Dan Evans. Peth gwerthfawr i wybod yw mai yn Dan Evans y cewch y cyfleusterau talu gorau hefyd. e.e. Cyfrif misol.

- neu Hur bwrcas (llog is na'r rhelyw)

- neu gynlluniau talu arbennig i siwtio'r unigolyn.

Gwnewch ymholiadau.

Peth defnyddiol arall i wybod ydyw fod DAN EVANS yn fodlon amcangyfrif eich gofynnion ym myd llenni a charpedi yn rhad ac am ddim unrhywle yn Ne Cymru.

DAN EVANS

Y SIOP I BOB AELOD O'R TEULU

*Galwch i weld*

**Dan Evans**

*Y BARRI 4242*

# HYWEL BENNETT

## Yn siarad yn arbennig i'r Dinesydd.

*Rhoddodd Hywel Bennett, yr actor o Gymro byd enwog berfformiad disglair iawn yn y Sherman yn ddiweddar sef chwarae rhan Dan yn y ddrama enwog Night Must Fall gan Emlyn Williams. Yng nghanol ei brysurdeb, cytunodd i gyfarfod Gareth Lloyd Williams, a dyma'r sgwrs a gafwyd.*

**GLW: Fe gawsoch chi'ch geni yn Garnant ger Rhydaman. Pa fath o atgofion sy gennych chi am y lle?**

*HB: Atgofion plentyn yn unig - rhyw ddarluniau o fuarth fferm ac awyrgylch fferm yw'r unig rai sy'n dod i'm meddwl ar hyn o bryd!*

**GLW: Fe gawsoch chi'ch magu am rhywfaint ar fferm felly?**

*HB: Do, nes oeddwn i'n bum mlwydd oed - yna fe symudodd fy nheulu i fyw i Streatham yn Llundain. Mae fy mam yn dod o deulu o ffermwyr ond roedd gwaith fy nhad yn golygu ei bod yn rhaid i ni symud.*

**GLW: Ai chi yw'r unig blentyn?**

*HB: Na, mae gen i frawd, Alun - chwe mlwydd yn iau na fi. Mae yntau'n dilyn yr un alwedigaeth. Mae e wedi bod yn gweithio'n ddiweddar gyda chwmni'r Young Vic. Tymor llwyddiannus iawn!*

**GLW: Oes yna rhyw draddodiad o actio yn y teulu sydd wedi bod yn ddylanwad arnoch chi i fynd i fyd actio?**

*HB: Na, does dim actorion fel y cyfryw. Mae 'na nifer o bregethwyr yn nheulu fy mam. Os oes 'na rhyw ddylanwad y teulu arna i mae'n debyg mai o'r cyfeiriad hwnnw y daw o!*

**GLW: Sut rydych chi'n synied am eich Cymreigrwydd? Ydych chi'n falch ohonno?**

*HB: Ydw'n falch iawn. Fedrwn i ddim bod yn ddim byd arall. Cymry yw fy nheulu ar y ddwy ochr. Mae teulu fy nhad o Gaerdydd a theulu fy mam o Sir Gaerfyrddin.*

**GLW: Ydych chi'n siarad rhywfaint o Gymraeg?**

*HB: Ydw, rhywfaint, ond ddim yn rhwydd iawn bob amser. Mae'n rhaid i mi dreulio mis neu ddau gyda 'nheulu yn Garnant cyn y medra'i siarad Cymraeg yn naturiol. Rydw i'n deall bob gair. Cymraeg oedd iaith yr aelwyd - mae fy mam yn Gymraes lân loyw.*

**GLW: Roeddech chi'n defnyddio acen Caerdydd yn rhan Dan yn "Night Must Fall", ydy hon yn acen gyfarwydd i chi neu oeddech chi'n gorfod ei dysgu hi?**

*HB: Mae hi'n weddol gyfarwydd i mi o gofio bod teulu fy nhad yn dod o Gaerdydd ond roedd yn rhaid i mi ail ddysgu rhywfaint arni hi.*

**GLW: Mae'r rhan rydych chi'n ei chwarae yn y ddrama hon yn rhan sensitif iawn ac mae rhai beirniaid wedi eich disgrifio fel 'yr actor sy'n chwarae rhannau sensitif'. ydy hynny'n golygu eich bod wedi eich cyfyngu, o gwbwl, i'r mathau yna o rannau?**

*HB: Na ddim o angenrheidrwydd. Cyd-ddigwyddiad yw hi fy mod i wedi chwarae cymaint o rannau o'r fath. Na, mi ddylai actor da fedru'i addasu'i hun i chwarae unrhyw fath o ran.*

**GLW: Pa ran rydych chi wedi ei chwarae hyd yma sydd wedi bod fywaf o dreth arnoch chi?**

*HB: O Hamlet yn sicr - roedd honno'n dreth meddyliol a chorfforol!*

**GLW: Ydio'n wir dweud ei bod hi'n uchelgais gan bob actor i chwarae Hamlet?**

*HB: Wn i ddim ydi o'n wir am bawb! Mae o'n wir am lawer, efallai. Mae rhai'n dweud mai dau fath o actor sydd 'na - y rhai sydd wedi chwarae Hamlet a rhai sydd ddim!*

**GLW: Rydych chi wedi cael profiad o actio ym mhob un o'r cyfryngau gan gynnwys Radio ac, wrth gwrs, fe fuoch chi'n cymryd rhan mewn un neu ddwy o ddramau Radio yma-yng Nghaerdydd gyda Lorraine Davies. Ydych chi'n hoffi Radio fel cyfrwng?**

*HB: Na ddim felly. Dydw i ddim yn hoff iawn o'r cyfrwng am ei fod yn dibynnu'n gyfangwbl ar y defnydd a wneir o'r llais.*

**GLW: Ond rydych chi wedi cael profiad reit helaeth o ffilm a llwyfan. Pa un o'r ddau yw'r gorau gennych chi?**

*HB: Mae'n anodd iawn cymharu'r ddau. Mae 'na gymaint i'w ddweud o blaid y naill a'r llall. Rydw i'n hoff iawn o'r cyfrwng ffilm.*

**GLW: Rydych chi wedi bod yn aelod o gwmni repertory hefyd ac yn chwarae rhai rhannau am gyfnodau hir. Sut deimlad ydy chwarae'r un rhan dro ar ôl tro fel hyn a beth ydy'r amser hwyaf y buoch chi'n chwarae unrhyw ran?**

*HB: Mae chwarae'r un rhan am hir yn gallu bod yn undonnog ond mae o i fyny i'r actor i sicrhau nad yw ei berfformiad yn bradychu unrhyw deimlad o ddiflastod. Yn rhyfedd iawn, mae'n debyg mai rhan 'Ophelia' a chwaraeis hwyaf - pan oeddwn i gyda Chwmni Theatre Cenedlaethol Yr Ifanc. Fe roddais tua chant o berfformiadau o honno mewn llefydd mor amrywiol a Llundain, Paris a'r Iseldiroedd.*

**GLW: Rydw i'n deall eich bod wedi derbyn gwahoddiad i gyfarwyddo i Gwmni Drama Cymru, ydych chi'n gwybod, eto, pa bryd fydd hynny a beth fydd y ddrama?**

*HB: Mae nhw wedi gofyn i mi gyfarwyddo un o ddramau Priestly ond wn i ddim pa un eto. Mae'n debyg mai rhywle tua Ionawr nesa y bydd hynny.*


**GLW: A phan fyddwch chi'n cael amser i hamddena, sut byddwch chi'n ymlacio?**

*HB: Pysgota! Rydw i'n hoff iawn o bysgota. Mae'r llonyddwch a'r tawelwch yn apelio llawer ata i - dydy hi fawr o ots os daliwch chi rhywbeth ai peidio!*

**GLW: Mae'n braf iawn bod wedi cael cyfarfod a chi. Diolch yn fawr.**

*HB: Croeso!*

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR



*Golygfa o 'Night Must Fall' gyda Hywel Bennett yn chwarae rhan Dan.*

# Dioddefaint Sant Ioan

*Ar nos Sadwrn, y deunawfed o Fai, canwyd Dioddefaint Sant Ioan (Bach) gan Gôr Y Tabernacl, Caerdydd, gyda Michael Goldthorpe (tenor) Eiddwen Harrhy (Soprano) Valerie Baulard (Contralto) a Peter Knapp (Bas). Yr arweinydd oedd Mr Arwel Hughes.*

*Fel y gall aelodau'r côr dystio, mae hwn yn waith anodd i'w ganu, ac maent i'w canmol am waith graenus a deallus. Roedd ôl ymarfer a llafurio cyson ar bob rhan o'r perfformiad....ac aeth pob un adref wedi'i blesio.*

*Er bod yr oriel yn gyffyrddus lawn, roedd nifer o seddau gweigion ar y llawr. Mae hyn yn resyn achos mae côr o'r safon yma yn teilyngu gwell cefnogaeth.*

*Deallir bod bwriad yn y gwynt i gasglu cantorion o holl addoldai Cymraeg Caerdydd at ei gilydd i gyflwyno perfformiad o Requiem Verdi rywbryd yn y dyfodol. Dyma fenter sy'n haeddu llwyddo.*



AIL LYFR LLEWELYN - COFIWCH GAEL EICH COPI GAN LYFRWERTHWYR LED- LED CYMRU. RHAID CAEL LLYFR 2!

Yn awr ar werth. Cyhoeddwyd a chynlluniwyd gan Adran Rhaglenni Plant HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd.

## Anfonwch newyddion, straeon, ac unrhyw beth diddorol arall at Y Dinesydd, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina.



*Rhan o'r siop lyfrau yn Oriel.*

# Alfred Janes

Arddangosfa werth ei gweld yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yw honno o waith yr arlunydd o Abertawe - ALFRED JANES. Dyma'r tro cyntaf i arddangosfa sylweddol o'i waith gael ei threfnu yng Nghymru. Mae hi'n werth ei gweld am amryw o resymau. Mae'r arlunydd ei hun yn berson diddorol, cynnes a charedig a'i ddaliadau am arlunio yn rhai i roi tipyn o galondid i ambell 'beintiwr Dydd Sul' nad yw'n siwr a ddylai ddal i ymbalfalu drwy ei ymdrechion pitw neu roi'r ffidil yn y to. Nid mater o fedru tynnu llun, meddai, yw arlunio yn gymaint a medru gweld. Os medrwch chi weld, mater bach ydy gosod i lawr yr hyn rydych chi yn ei weld. Yn ei eiriau ei hun: "Yr ydym i gyd yn hoffi gwella ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r ffordd orau i wella yw trwy ddal ati a thrwy sylwi ar y ffordd y mae eraill yn mynd ati, yn enwedig y rhai da; ac fe ddeuwn i adnabod y rhai hynny ond i ni edrych yn ddigon caled."

A does dim rhaid edrych yn galed iawn y dyddiau hyn i ddod o hyd i un o'r 'rhai da' - ddim pellach na'r arddangosfa yn Oriel lle mae gwaith Alfred Janes yn hongian.

Rheswm arall am fynd i weld yr arddangosfa yw am fod, ymhlith ei waith, bortreadau hynod o bobl fel Yr Athro Tom Parry, Gwynfor Evans, Vernon Watkins, Dylan Thomas, Syr Ifan ab Owen Edwards a rhagor. Ac i rywun sydd â diddordeb gwirioneddol mewn arlunio mae'n werth dilyn yr arddangosfa o'r darlun cyntaf hyd y diwedd er mwyn medru gweld y ffordd y newidiodd ac y datblygodd yr arlunydd ei arddull o'r dull bron yn glinigol ar y dechrau, heibio i'r portreadau sy'n arbennig o ran eu tebygrwydd a'u manylder (sylwer e.e ewinedd a chap Tom Parry), drwodd i ffurfiau geometraidd mewn aliwminiwm a phlastig ei weithiau haniaethol diweddaraf.

Mae'r arddangosfa ar agor yn Oriel am bythefnos o Fehefin 8fed.

**Gareth Lloyd Williams**

# DOD YN ÔL

Ar ôl treulio peth amser yn Sir Aberteifi, fel un o Arolygwyr ei Mawrhydi, mae Mr Eirwyn Thomas yn dychwelyd i Gaerdydd. Fe fyddwch yn cofio ei fod ef a'i deulu unwaith yn byw yn Heath Park Avenue, ac edrychwn ymlaen at eu gweld eto yn ein plith. Mae Mr Thomas yn para i weithio i'r Weinyddiaeth, a bydd croeso cynnes iddo yn Dewi Sant lle'r oedd yn ddarllenwr lleyg hynod o weithgar cyn iddo ymadael.

---

**POB HWYL**

Yn Eglwys Dewi Sant yn ddiweddar priodwyd Sara Walters o'r Waen, Caerdydd a Gareth Howell, Rhiwbeina. Byddant yn nythu yn Cogan, ger Penarth. Hogan o Cogan fydd Sarah bellach.

# ORIEL AR AGOR

Ar ôl iddi hi addo gwneud hynny am fisoedd, gyda'r gwanwyn eleni, fe agorodd siop a chanolfan ddiwylliannol Yr Oriel yn Heol Siarl. Mae'n anodd ichi beidio â'i gweld oherwydd mae'i hwynebau'n lliwgar, yn felyn ac yn las - lliwiau Cyngor y Celfyddydau, ond gellir dweud ar y llaw arall y gall sawl siopwr basio heibio iddo os na ŵyr ble i edrych. Byddai ar ei mantais, pe bai'n nes at Heol y Frenhines. Oherwydd nad yw, fe fydd rhaid iddi hi ddibynnu bron yn gyfangwbwl ar yr un sy'n mynd iddi'n unswydd i brynu....achos mae'n fwy na phosibl mai mynd o'r tu arall heibio fydd y siopwr crwydriol.

Ond mae mynd iddi'n werth y drafferth. Mae oriel arddangos ar y llawr isaf, ac yma gellir prynu lluniau. Ar yr ail lawr, mae siop recordiau a llyfrau. Gobeithir y gellir dangos pob llyfr Cymraeg safonol i oedolion ac i blant, a'r holl lyfrau eraill sy'n ymwneud â Chymru yn yr adran hon, gan gynnwys gwaith ein hawduron Eingl-gymreig. Recordiau llafar sy'n cael eu gwerthu, ond mae'r casgliad yn un cynhwysfawr ac yn werth pori trwyddo.

Mae seddau moethus ymhobman, a chyfle i wrando ar recordiau a sgwrsio. Yn wir, fe all hwn ddatblygu'n ganolfan diwylliannol y ddinas, yn union fel yr arfaethir iddo fod. Afraid dweud y gellir prynu yn yr iaith Gymraeg yn ogystal â'r iaith Saesneg. Dyw hi ddim yn agor yn y bore tan hanner awr wedi deg ond mae'n para ar agor tan oriau amrywiol ar ôl pump o'r gloch. Er enghraifft, ar nos Fawrth a nos Iau, mae ar agor tan naw o'r gloch.


## GWASG PRIFYSGOL CYMRU

Gwahoddir ceisiadau am ddwy swydd yng Ngwasg Prifysgol Cymru.

## Clerc/Teipydd

## Teipydd/Llawfer

Bydd y gwaith yn ddiddorol ac yn rhoi cyfle i'r ddwy a apwyntir i ddysgu gwaith swyddfa ac i ddod i wybod am waith cyhoeddi'n gyffredinol. Gwyliau da a chyflog yn ol profiad a chymwysterau. Anfonwch eich ceisiadau rhag blaen mewn llythyr yn enwi dau ganolwr at Y Cyfarwyddwr, Gwasg Prifysgol Cymru, Merthyr House, James St, Caerdydd.


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd. Ffôn: 0222 - 396262.*